Coeden
Ddarllen
Rhydychen

# Trafferth Gydag Allwedd



Roderick Hunt
Alex Brychta




Roedd Mam-gu wedi dod i aros. Roedd ganddi anrhegion i'r plant. Roedd wedi dod â Chwistrellwr Chwim yr un iddyn nhw.

"O na!" ochneidiodd Dad.

"Chwistrellwr Chwim! Gwych," meddai Dids. "Diolch, Mam-gu."



Aeth y plant allan i chwarae gyda'u Chwistrellwyr Chwim.

"Arhoswch amdanaf fi," galwodd Mam-gu.

Gwyliodd Mam a Dad nhw.

"Edrych ar Mam-gu wir!" ochneidiodd Dad. "Mae fel cael merch fach ddrwg i aros."







Roedd gan Mam-gu syrpréis i Mam a Dad. Roedd ganddi lyfrau yn llawn lluniau.

"Beth yw'r rhai yna?" gofynnodd Dad.

"Hen luniau," meddai Mam-gu. "Rown i'n meddwl y byddech yn eu hoffi efallai."

"Hen luniau o beth?" gofynnodd Dad.



Roedd rhai lluniau o Mam pan oedd hi'n ferch fach.

"Edrychwch ar Mam," meddai Cad. "Roedd hi'n ddigon tlws pan oedd hi'n fach."

"Ac edrychwch ar Mam-gu," meddai Dids. "Roedd hi'n reit ifanc ar un adeg."






Aeth Cad a Dids allan i chwarae. Dangosodd Mam-gu ragor o luniau i Onw.

"Dyma fi pan own i'n ferch fach," meddai Mam-gu.

"Pam mae popeth mewn lliw llwyd?" gofynnodd Onw. "Oedd popeth fel hyn yn y dyddiau yna?"

"Na," chwarddodd Mam-gu, "dim ond y lluniau."



Cynnodd Onw y teledu. Roedd hen ffilm am ddau ddyn yn symud piano.

"Dyna ryfedd," meddyliodd. "Maen nhw'n lliw llwyd hefyd. Maen nhw yn union fel hen luniau Mam-gu."

Roedd y dynion yn gwneud i Onw chwerthin.






O'r diwedd, diffoddodd Onw y teledu. Aeth i chwilio am Cad, ond doedd hi ddim yn ei hystafell.

Ond yna sylwodd Onw fod yr allwedd hud yn disgleirio.

"O na!" meddyliodd. "Rwy ar fy mhen fy hun!"



Aeth yr allwedd hud ag Onw i fyd llwyd rhyfedd.

"Mae popeth yn llwyd," meddyliodd Onw. "Mae hyn yn union fel y ffilm welais i ar y teledu."

Roedd dau ddyn yn ceisio symud piano. Welon nhw mo Onw.



"Does dim lliw," meddai Onw. "Dwi ddim yn hoffi'r holl lwyd yma. Rwy am fynd adref. Mae hon yn antur wirion."

Trawodd yr allwedd yn erbyn y wal.

"Dos â fi 'nôl," meddai yn flin. "Neu rho rywfaint o liw yn yr antur hon."




Roedd y ddau ddyn yn dal i wthio'r piano. Roedd yn rhaid iddynt ei gael drwy ddrws.

"Dewch i'n helpu ni," galwon nhw.

Doedd Onw ddim am wneud, ond aeth drosodd i helpu.

"Rhaid inni fynd â'r piano allan," meddai'r dyn mawr.





"Yna mae'n rhaid inni ei gario i lawr ychydig o risiau," meddai'r dyn bach.

"Nawr! Fe afaelwn ni yn y cefn," meddai'r dyn mawr.

"A gafaelwch chi yn y blaen," meddai'r dyn bach.

"Iawn," meddai Onw.

Gwthiodd heibio i'r piano a pharatoi i helpu.



"Pan alwaf fi 'tynnwch', tynnwch chi," meddai'r dyn mawr. "Tynnwch!" bloeddiodd.

Ceisiodd Onw dynnu'r piano. Yn sydyn, saethodd yn ei flaen a llithro i lawr y grisiau.

Gafaelodd Onw yn y top a neidiodd ymlaen.






Rhedodd y piano i lawr y stryd. Aeth yn gyflymach ac yn gyflymach. Glynodd Onw wrth y top.

"Edrychwch ar beth rydych chi wedi ei wneud nawr," bloeddiodd y dyn mawr ar y dyn bach.

"Nid arnaf fi mae'r bai," meddai'r dyn bach.

"Dywedais i wrthoch chi am beidio â gwthio mor galed," meddai'r dyn mawr.



Yn sydyn daeth y piano i stop. Cwympodd i mewn i glawdd.

Hedfanodd Onw dros y clawdd a glanio mewn cadair ardd feddal.

“Hei!” bloeddiodd y dyn mawr. “Edrychwch beth rydych chi wedi ei wneud i’n piano.”





Roedd Onw yn flin. “Mae hon yn antur wirion,” gwaeddodd. “Rwy’n ei chasáu.”

Cymerodd yr allwedd hud o’i boced a’i tharo eto.

“Dwi ddim yn dy hoffi di,” bloeddiodd. “Rwy am fynd adref.”

Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



Aeth yr hud ag Onw adref. Roedd Onw yn falch fod yr antur ar ben.

Ond doedd yr antur ddim ar ben. Roedd rhywbeth wedi mynd o'i le!


Roedd Onw yn lliw llwyd. Roedd yn edrych fel hen lun ohono'i hun.



Sylwodd Onw ddim ar hyn. Rhoddodd yr allwedd hud i lawr ac aeth i chwilio am Cad a Dids.

Roedden nhw yn yr ardd gyda Mam-gu. Ebychodd pawb pan welon nhw Onw.

"O!" meddai Cad. "Mae rhywbeth wedi mynd o'i le. Rwyt ti'n edrych yn llwyd, fel hen lun."



Y foment honno daeth Mam a Dad allan o'r tŷ.

"Mae hyn yn ofnadwy!" meddai Dids. "Gwnewch rywbeth i'w stopio nhw, Mam-gu. Dydyn nhw ddim i weld Onw."

"Gadewch chi hyn i fi," meddai Mam-gu. "Ewch chi ag Onw i'r tŷ."






Cododd Mam-gu Chwistrellwr Chwim. Rhedodd tuag at Mam a Dad.

"Mam-gu!" gwaeddodd Mam. "Peidiwch chi â mentro. Dyw hyn ddim yn hwyl."

"Ydy, mae!" chwarddodd Mam-gu. Dechreuodd chwistrellu dŵr ar Mam.



Rhedodd Mam-gu o gwmpas yr ardd ar ôl Mam a Dad.

Gafaelodd Cad a Dids ym mreichiau Onw a mynd ag ef i'r tŷ.

"Go dda Mam-gu," meddai Cad. "Nawr mae'n rhaid cael Onw i fyny'r grisiau."

"Ow! Peidiwch! Beth sy'n bod?" llefodd Onw.





Edrychodd Onw arno ei hun yn y drych.

"Yr allwedd," meddai. "Doeddwn i ddim am fynd ar antur. Nawr mae'r hud wedi mynd o chwith."

"Beth wnawn ni?" gofynnodd Cad.

Dechreuodd Onw grio. "Dwi ddim am edrych fel hen lun," cwynodd.



Daeth Mam-gu i fyny'r grisiau.

"Dyw Mam a Dad ddim yn rhy hapus gyda fi. Ond rwy wedi gwneud paned o de iddyn nhw," meddai.

"Roeddech chi'n grêt," meddai Dids.

"Ond beth fedrwn ni wneud?" gofynnodd Cad. "Fedrwn ni ddim gadael i Mam a Dad ddysgu am yr allwedd hud."





Cafodd Dids syniad. "Mae dillad Onw yn edrych yn llwyd," meddai. "Beth am ei gael i newid ei ddillad."

Aeth Onw i'w ystafell. Gwisgodd dop coch.

"O na," meddai Dids. "Mae dy dop yn troi'n llwyd. Rwyt ti'n dal i edrych fel hen lun."



Ar hynny clywon nhw Dad yn dod i fyny'r grisiau.

"Gwnewch rywbeth," hisiodd Cad. "Dyw Dad ddim i weld Onw."

Gafaelodd Mam-gu mewn cynfasau o'r gwely.

"Smaliwch eich bod yn chwarae ysbrydion," meddai.

"Bydd yn amser cinio mewn deng munud," meddai Dad.





Aeth Dad yn ôl i lawr y grisiau. Roedd e'n edrych yn flin.

"O diar!" meddai Mam. "Beth sy'n bod?"

"Mam-gu," meddai Dad.

"Beth mae hi'n ei wneud nawr?" gofynnodd Mam.

"Chwarae ysbrydion," meddai Dad. "Beth yn y byd wnaiff hi nesaf?"



Roedd yn amser cinio. Daeth Mam-gu a'r plant i lawr y grisiau.

"Ydych chi wedi golchi'ch dwylo?" gofynnodd Dad.

"A ble mae Onw?" gofynnodd Mam.

"Wel," meddai Cad. "Rydyn ni wedi paratoi syrpréis bach ichi."






Daeth Onw i mewn i'r ystafell. Edrychodd Mam a Dad arno.

"O Onw!" ebychodd Mam.

"O bobol annwyl!" meddai Dad. "Ai eich syniad chi o jôc yw hyn?"

"Rwyt ti'n edrych mor ... wahanol," meddai Mam.



“Beth ydych chi’n meddwl?” meddai Cad. “Mae Mam-gu wedi gwneud iddo edrych fel dyn mewn hen ffilm.”

“Rydyn ni wrth ein bodd pan ddaw Mam-gu i aros,” meddai Dids. “Mae hi’n glyfar, cytuno?”

“Y... ydy,” meddai Dad.





Gwgodd Mam ar Onw. “Mae lliw rhyfedd ar dy geg,” meddai. “Gad imi weld dy dafod.”

“O na!” sibrydodd Dids. “Mae ei dafod yn llwyd.”

Dangosodd Onw ei dafod.

“O diar!” meddai Mam. “Edrych ar dy dafod llwyd. Rhaid dy fod yn sâl. Rwy am alw’r meddyg.”




Ar ôl cinio, anfonodd Mam Onw i fyny'r grisiau.

"Gwisga dy ddillad iawn," meddai. "Gall y meddyg dy weld mewn hanner awr."

"O na!" meddai Cad. "Nawr bydd Mam a Dad yn dysgu am yr allwedd hud. Gwnewch rywbeth, Mam-gu."

"Wn i ddim beth i'w wneud," meddai Mam-gu.






Aeth Onw i fyny'r grisiau. Aeth Cad a Dids gydag e. Cododd Onw yr allwedd hud.

"Mae'n ddrwg 'da fi," meddai Onw. "Doeddwn i ddim wedi bwriadu bod yn gas i'r allwedd."

Disgleiriodd yr allwedd ychydig bach. Ar y foment honno, daeth lliw Onw yn ôl.



"Rwy'n falch nad oes raid imi fynd at y meddyg," meddai Onw. "Mae'r hud wedi gweithio mewn pryd."

"Rwy'n credu ei fod wedi bwriadu gwneud," meddai Cad.

"Ydych chi'n meddwl nad oedd yn mynd i adael i Mam a Dad ddysgu amdani?" meddai Dids.

"Ydw," meddai Cad. "Ydych chi?"

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 9

Rhagor o Storïau A

# Trafferth Gydag Allwedd

Mae Onw yn cael antur hud nad yw'n ei hoffi, ac mae'n dysgu nad yw'n syniad da i fod yn flin gyda'r allwedd hud.



**Cam 9 Rhagor o Storïau A**

**Trefn ddarllen a argymhellir:**

Y Llygad Glas
Achub!
Antur yn yr Iseldiroedd
Y Gorau yn y Lle
Y Peiriant Hedfan
Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

ISBN 0-86174-856-5
9 780861 748563

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 2003
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2006
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

www.drakeeducational.com
DRAKE
Argraffwyd yng Nghymru